



## FFRINDIAU'R BYD SESIWN 3

### Beth mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd da?



#### Ffocws y dysgu (Gwella Adran 50)

- I ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o werthoedd Cristnogol a sut y gallant gael effaith gadarnhaol ar ein hymddygiad fel dinasyddion moesegol.
- I wneud cysylltiadau rhwng ymddygiadau, gweithredoedd a'r Beibl.



#### YMGYSYLLTU

Fel dinasyddion moesegol rydym yn cychwyn dysgu am effaith ein gweithredoedd, i barchu anghenion a hawliau eraill, ac i ddangos ein ymrwymiad i gynladwyedd y blaned.

#### Dinasyddion ein hysgolion, ein cymunedau a'r byd.

Mae'r straeon creu rydym wedi astudio wedi ein cynorthwyo i esbonio a meddwl am ein lle a'n rôl yn y byd. Mae sawl stori yn pwysleisio pwysigrwydd byw mewn harmoni gyda'r amgylchedd, defnyddio adnoddau'r ddaear gyda pharch.

Mae Cristnogion yn disgrifio Duw fel 'Y Creawdwr' ac rydym yn dysgu sut y byddai Duw yn hoffi i ni ofalu am ei greadigaeth. Gweledigaeth Duw yw byd lle mae pobl yn parchu'r ddaear a parchu eu gilydd.

#### Ydi Pethau Dal Yn Dda?

Mae cyfrifoldeb gennym i'r ddaear, i'n gilydd ac i Dduw. Rydym yn dysgu sut i fod yn ddinasyddion gwybodus, moesegol o'n hysgolion, o'n cymunedau ac o'r byd.

Beth mae hyn yn ei olygu go iawn?

Mae'n rhaid mynd yn ôl i'r weledigaeth oedd gan Dduw ar ddechrau creadigaeth. Mae llyfr cyntaf y Beibl Genesis 1:31 yn esbonio "A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai ac wele da iawn ydoedd:" Beth welodd Duw a oedd yn dda iawn ydych chi'n meddwl?

#### Beth am gynllunio adroddiad "Newyddion Da" am Y Creu- beth fyddai eich pennawd?

Pa gwestiynnau allwch chi ofyn wrth eich Duw am ei greadigaeth?

#### Sut allwn ni ddangos ein bod ni'n malio?

Mae'r angen i ofalu am yr holl ddaear, i ofalu am y pobl mwyaf bregus ac i fyw o fewn ein gallu yn rhai o'r egwyddorion a gwerthoedd cyffredin a rennir gan lawer o draddodiadau ffydd a diwylliannau o amgylch y byd.



## Myfyrio

Beth mae'n ei olygu i fod yn ddinasyddion da yn:

- Eich ysgol
- Yn eich cynefin/cymuned
- Yn y byd

Beth oedd gweledigaeth Duw?

Beth fyddai eich gweledigaeth chi am ddyfodol ein byd?

Meddylwch sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar ein cymdogion byd eang.

Pam mae gwerthoedd Cristnogol yn bwysig?



## Adnoddau ychwanegol/gwefannau

<https://youtube.be/g23rVbUKUishis> Mae'n esbonio pwysigrwydd ein perthynas â'r blaned.

<https://youtube.be/-qzS4L5BiTM> Mae'n dangos pwysigrwydd ein gweithredoedd ar ein planed.

Mae rhestr a disgrifiad o'r Gwerthoedd Cristnogol ar gael o

<https://www.imaginer.co.uk/wp-content/uploads/2016/05/SMSC-and-Values-Final.pdf>

YR EGLWYS  
YNG NGHYMRU



THE CHURCH  
IN WALES